------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 13 Gorffennaf 2017

Amser: 09.15


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Price**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddESS@cynulliad.cymru


**Rhag-gyfarfod preifat** (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitem 3

## 3 Preifat - Craffu ariannol yn ystod y flwyddyn

(09.30-10.00)

## 4 Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith - Craffu ariannol yn ystod y flwyddyn

(10.00-11.00) (Tudalennau 1 - 23)

Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Simon Jones, Cyfarwyddwr, Trafnidiaeth ac Seilwaith TGCh, Llywodraeth Cymru
Mick McGuire, Cyfarwyddwr Sectorau a Busnes, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

EIS(5)-18-17 (p1) Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitem 6

## 6 Arferion gwaith a gweithdrefnau'r Pwyllgor

(11.00-12.00) (Tudalennau 24 - 25)

Kate Faragher, CEO, BeSpokeSkills

Dogfennau atodol:

EIS(5)-18-17 (p2) Adolygiad o waith Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau 2016-17 (Saesneg yn unig)

**Egwyl** (12.00-13.30)

## 7 Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith - Effeithiau tagfeydd ar y diwydiant bysiau yng Nghymru

(13.30-14.30) (Tudalennau 26 - 42)

Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Simon Jones, Cyfarwyddwr, Trafnidiaeth ac Seilwaith TGCh, Llywodraeth Cymru
Sheena Hague, Dirprwy Gyfarwyddwr Yr Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

EIS(5)-18-17 (p3) Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

## 8 Papurau i'w nodi

8.1 **Gwybodaeth ychwanegol gan y Ffederasiwn Busnesau Bach - Bargeinion Dinesig ac Economïau Rhanbarthol Cymru**

(Tudalennau 43 - 45)

Dogfennau atodol:
EIS(5)-18-17 (p4) Gwybodaeth ychwanegol gan y Ffederasiwn Busnesau Bach (Saesneg yn unig)

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod a chyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 19 Gorffennaf

**Ôl-drafodaeth breifat** (14.30-14.45)

Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Memorandwm ar yr Economi a'r Seilwaith 2017/18 Sesiwn

## Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau – 13 Gorffennaf 2017

### 1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth am y polisïau a'r penderfyniadau yng Nghyllideb 2017/18 ar gyfer yr Economi a'r Seilwaith yng nghyd-destun y materion a amlygwyd i'w hystyried ymhellach i'r Pwyllgor Cyllid. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor a manylion y newidiadau a ddisgrifiwyd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2017-18, fel y'i cyhoeddwyd ar 27 Mehefin 2017.

### 2.0 Chwyddiant

*Cefndir*

- Mae'r gostyngiad yng ngwerth y bunt ers y refferendwm ar Brexit y llynedd wedi cynyddu'r costau mewnforio. Mae hyn yn un o'r prif ffactorau dros y cynnydd mewn chwyddiant. Mae hyn yn adlewyrchu damcaniaethau economaidd a phrofiad blaenorol ac mae'n helpu i esbonio pam fod disgwyliadau am chwyddiant hefyd wedi cynyddu.

- Yn benodol, dibrisiant o'r cynnydd ym mhris mewnforion, sy'n codi lefel y prisiau cyffredinol yn uniongyrchol a hefyd yn cynyddu pris mewnforion, sy'n cael effeithiau anuniongyrchol ar brisiau.

- Mae'r cynnydd mewn prisiau a ragwelir yn cael ei weld yn ymarferol yn awr ac mae'n cael ei adlewyrchu yn yr ystadegau diweddar ar chwyddiant.

- Y gyfradd chwyddiant bresennol yn y DU, fel y'i mesurwyd gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yw 2.9%, y gyfradd uchaf ers Mehefin 2013, ac sy'n uwch na tharged o 2% Banc Lloegr.

- Roedd dibrisiant sterling yn ganlyniad a ragwelwyd pe byddai'r bleidlais o blaid Brexit, ac roedd nifer o arbenigwyr annibynnol amrywiol wedi rhagweld hyn.

- Mae'r dibrisiant i'r arian cyfred yn dilyn Brexit yn adlewyrchu asesiad gan fuddsoddwyr rhyngwladol bod asedau sydd wedi'u lleoli yn y DU yn werth llai na'r hyn a ystyriwyd yn flaenorol, oherwydd y disgwyliad y bydd y twf economaidd yn is na'r twf a ragwelwyd yn flaenorol.

*Yr effaith ar Gyllideb Llywodraeth Cymru*

- Mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn sefydlog yn nhermau arian cyfred felly, yn y tymor byr, a bod popeth arall yn gyfartal, mae chwyddiant uwch yn debygol o gynrychioli llai o bŵer gwario i Lywodraeth Cymru.

- Mae'r gyfradd chwyddiant gyhoeddedig yn gyfartaledd sy'n seiliedig ar fwndel o nwyddau a gwasanaethau ar gyfer cartrefi yn y DU. Mae'r union effaith ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y newidiadau i brisiau'r nwyddau a'r gwasanaethau maent yn eu prynu.

- Ni fydd yr egwyddor a ddefnyddiwn i reoli ein cyllideb yn newid. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu hyd yn oed yn fwy effeithiol a sicrhau bod ein holl wariant yn cyflawni'r gwerth mwyaf posibl i Gymru.

*Yr Effaith Economaidd Ehangach*

- Yn nhermau'r effaith economaidd ehangach, mae'r cynnydd hwn i chwyddiant yn creu pwysau pellach ar incwm aelwydydd, ar adeg pan mae twf mewn cyflogau yn parhau i fod yn gymedrol.

- Bydd chwyddiant uwch yn effeithio ar bŵer prynu'r rhai ar incwm sefydlog a gallai hyn gynyddu'r galw am weithrediadau trechu tlodi gan Lywodraeth Cymru.

- Mae'r mesurau cyni, a orfodwyd gan y Llywodraeth Geidwadol, gan gynnwys rhewi'r budd-daliadau "oedran gweithio". Mae hyn yn golygu bod pobl sy'n derbyn budd-dal plant, credydau treth neu lwfans ceisio gwaith yn canfod nad yw eu budd-daliadau'n cynyddu gyda chwyddiant mwyach.

- Os ydym am gyflawni ein nod o sicrhau ffyniant i bawb, mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i weithio gyda busnesau i greu cyfleoedd i bobl a chefnogi unigolion i fanteisio ar y cyfleoedd hyn.

- Mae chwyddiant uwch yn peri pryder hefyd i fusnesau oherwydd mae'n aml yn gwanhau eu gallu i fuddsoddi, yn arbennig yn ystod cyfnod o ansicrwydd gwleidyddol dwysach.

- Rhaid inni hefyd roi'r cynnydd mewn chwyddiant hwn mewn cyd-destun ehangach. Mae chwyddiant yn parhau i fod yn gymharol isel mewn termau hanesyddol. At hynny, dim ond yn ddiweddar y mynegwyd pryderon bod economi'r DU yn anelu at gyfnod o ddatchwyddiant.

- Mae dibrisiant y bunt wedi cyflwyno rhai cyfleoedd, a hynny i'n hallforwyr yn fwyaf nodedig. Cynyddodd gwerth allforion o Gymru bron 12 y cant yn y flwyddyn yn dod i ben ym Mawrth 2017, cyfradd gyflymach nac yng ngweddill y DU.

## 3.0 Dyraniadau’r Gyllideb – Y Dystiolaeth sy’n Sail i Benderfyniadau

Mae tystiolaeth o nifer fawr o ffynonellau amrywiol yn sail i’n penderfyniadau ariannol i gyflawni’r Rhaglen Lywodraethu, er enghraifft: ymchwil cyhoeddedig, ymgynghoriadau â rhanddeiliaid, gwerthusiadau blaenorol o bolisïau ac ystadegau.

Rydym hefyd yn ystyried dadansoddiadau a thystiolaeth annibynnol gan nifer o sefydliadau. Er enghraifft, mae Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau ar bortffolio’r Economi a’r Seilwaith. Mae’r adroddiadau hyn wedi amlygu pwysigrwydd seilwaith cysylltiol er mwyn cefnogi twf economaidd, ac mae hyn wedi’i adlewyrchu yn ein gwariant ar y seilwaith Trafnidiaeth a TGCh.

Mae tystiolaeth a chwmpas y gwerthusiad a gynhaliwyd yn ystod datblygiad y polisi a’r rhaglen yn cael eu hasesu ar sail risg, maint a graddfa, y dystiolaeth bresennol a ffactorau eraill. Ar brosiectau mwy megis ffordd liniaru’r M4 a’r Ganolfan Gynadledda mae’n briodol casglu tystiolaeth o nifer o ffynonellau gwahanol. I’r gwrthwyneb, ar gyfer ymyriadau llai gyda chwmnïau unigol, mae’n briodol dibynnu ar ystod lai o ffynonellau neu’r sylfaen dystiolaeth bresennol, yn amodol ar ein prosesau diwydrwydd dyladwy arferol. Cynhelir astudiaethau ymarferoldeb cyn dechrau prosiectau allweddol i asesu’r addasrwydd wrth gyflawni yn erbyn ein nodau, a bydd adolygiadau porth ar gyfer prosiectau mwy yn cael eu cwblhau i herio pob agwedd ar achos busnes, gan gynnwys yr asesiad gwerth am arian hollbwysig. Er bod yr adolygiadau yn cael eu cynnal ar gyfer prosiectau penodol, gallant helpu i gronni ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth ar gyfer ystyried prosiectau eraill. Gall adroddiadau archwilio mewnol ac allanol fod yn ddefnyddiol yn yr un modd.

Mae’r strategaethau trawsbynciol yn rhan allweddol o’r ffordd yr ydym yn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a byddant yn ein cynorthwyo i gyfleu ein dealltwriaeth ynghylch ym mha ffyrdd y gall y Llywodraeth wneud y cyfraniad mwyaf i’r Nodau a’r Dangosyddion Cenedlaethol.

Darperir diweddariadau ar feysydd o ddiddordeb penodol i’r Pwyllgor fel a ganlyn:

### a) Ardaloedd Menter

Cyhoeddir Dangosyddion Perfformiad Allweddol yr Ardaloedd Menter ddwywaith y flwyddyn er mwyn gallu monitro cynnydd mewn meysydd allweddol megis swyddi, buddsoddiadau, datblygu tir, cymorth ac ymholiadau busnes, ac maent ar gael drwy’r ddolen isod:
http://gov.wales/docs/det/publications/161215-kpi-half-year-16-17-en.pdf

Datblygwyd y dangosyddion mewn cydweithrediad agos â Chadeiryddion yr Ardaloedd Menter, sydd â phrofiad sylweddol ac sydd mewn sefyllfa dda i benderfynu sut i olrhain cynnydd.

Yn 2017/18 mae cyllideb refeniw rhaglen yr Ardaloedd Menter o £927,000 yn cynnwys £50,000 sy'n cael ei ddosbarthu i fyrddau'r wyth bwrdd Ardaloedd Menter i gyflenwi Cynlluniau Strategol a phrosiectau dichonoldeb / ymchwil lleol (ac nid yw natur y rhain fel arfer yn creu allbynnau'n uniongyrchol. Mae cyllidebau cyfalaf ar gyfer datblygiad a buddsoddiad economaidd yn y seilwaith ar gael i gefnogi prosiectau a flaenoriaethwyd. Mae hyn yn cynnwys prosiectau unigol yn yr Ardaloedd Menter ac sydd felly wedi'u hymgorffori yn cyflenwi'r Sectorau a Busnes. Mae'r adroddiad a gyhoeddir ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn coladu gwybodaeth am effaith y rhaglen.

### b) Cyllid Cymru

Bydd Cyllid Cymru a dyfodol Banc Datblygu Cymru yn mynd i'r afael â'r bwlch cyllid i fusnesau micro, bach a chanolig eu maint. Amcangyfrifir y bydd y bwlch cyllid yng Nghymru tua £350 miliwn i £500 miliwn y flwyddyn. Daw'r amcangyfrif hwn o ffynonellau yn cynnwys y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Microfusnesau, yr Adolygiadau Mynediad at Gyllid a gynhaliwyd gan yr Athro Dylan Jones-Evans yn 2013, a'r Astudiaeth Ddichonoldeb ar gyfer Banc Datblygu Cymru yn 2015.

Mae Cyllid Cymru'n defnyddio'r dystiolaeth hon ochr yn ochr ag ymchwil desg pellach gan Fanc Busnes Prydain a'r adroddiadau data ar fenthyca banciau (Cymdeithas Bancio Prydain a Banc Lloegr). Maent hefyd yn casglu eu gwybodaeth eu hunain (er enghraifft, gan gleientiaid, darpar gleientiaid a chyfryngwyr y maent yn delio'n uniongyrchol â hwy yng Nghymru) er mwyn creu darlun cyffredinol o farchnad fusnes microfusnesau, a busnesau bach a chanolig eu maint. Ar ôl cadarnhau angen, bydd Cyllid Cymru'n cynhyrchu "Achos Busnes Model Pum Achos" i gefnogi'r penderfyniad i greu cronfa newydd. Byddai achos busnes yn destun adolygiad annibynnol trylwyr gan swyddogion Lywodraeth Cymru cyn gwneud argymhelliad i greu'r gronfa a dyrannu'r cyllid y gwnaed cais amdano.

Un o'r newidiadau allweddol y bydd Banc Datblygu Cymru yn eu darparu yn y dyfodol fydd creu Uned Gwybodaeth newydd. Bydd hyn yn galluogi BDC i gael dealltwriaeth well o'r farchnad a chynnal dadansoddiad manwl o arferion BBaCh o ran newidiadau i'w hanghenion. Bydd cronfeydd yn y dyfodol yn cael eu hysbysu drwy broses o ddadansoddi anghenion ac amodau'r farchnad wrth iddynt ddatblygu. Bydd gan BDC dîm strategaeth gwell hefyd, a fydd yn gweithio'n fwy ffurfiol gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Phrifysgolion Cymru i gynnal adolygiad gwell o dueddiadau economaidd, gan gynnwys y farchnad BBaCh.

## 4.0 Dull Economaidd Newydd – Allbynnau a Chanlyniadau

Mae *Symud Cymru Ymlaen (2016-2021),* ein rhaglen ar gyfer llywodraethu yn nodi ein hymrwymiadau allweddol a'r prif weithredoedd y byddwn yn eu cyflawni.  Ein nod yw creu Cymru sy'n iach ac egnïol, Cymru sy'n ddiogel sy'n ffynnu, Cymru iach ac egnïol, Cymru uchelgeisiol sy'n dysgu, Cymru unedig a chysylltiedig.  Rydym yn ymrwymedig i ddatblygu dull strategol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf yn y cyfnod hwn o ansicrwydd.  Bydd hyn yn sicrhau dull cydlynol a chydgysylltiedig nad yw'n ystyried datblygu economaidd fel elfen ar wahân ac unigol o weithredoedd eraill y Llywodraeth.

Mae'r dull gweithredu hwn yn nodi newid cyfeiriad er mwyn hybu economi Cymru, sy'n lledaenu cyfleoedd ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gan gydnabod bod ffyniant yn sicrhau diogelwch i unigolion, teuluoedd a chymunedau.  Mae'r dull hwn yn cynnwys ffocws ar:

- Mynd i'r afael â her cynhyrchiant economi Cymru a buddsoddi mewn cysylltedd ac arloesedd fel ysgogwyr allweddol ar gyfer cynhyrchiant.

- Elfen ranbarthol newydd at ddatblygu economaidd a fydd yn galluogi i bob rhanbarth ddatblygu ei sectorau a'i gryfderau penodol ei hun.

- Contract economaidd newydd rhwng y Llywodraeth, busnes ac eraill.

Mae perthynas agos rhwng y cyfeiriad sy'n cael ei ddatblygu o dan Ffyniant a Diogel gyda'r cyfeiriad Unedig a Chysylltiedig sy'n canolbwyntio ar gynnal, gwella a datblygu ein seilwaith cysylltedd.

Rydym yn ymrwymedig i ddarparu tystiolaeth o'r effaith rydym wedi'i gyflawni a byddwn yn adrodd ar gynnydd yn flynyddol.

Mae ein dull gweithredu strategol yn cynrychioli ffordd newydd o weithio, un sy'n cydnabod yr heriau a wynebwn heddiw, y Gymru yr ydym ei heisiau ar gyfer y dyfodol a'r camau y mae angen inni eu cymryd i'w gwireddu.  Mae angen inni edrych hefyd ar y ffordd yr ydym yn gweithio yn y Llywodraeth ac ystyried Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol fel ysgogwyr ar gyfer y newid hwn.

## 5.0 Buddsoddiad trawsadrannol

Yn draddodiadol, bu'n anodd sicrhau cefnogaeth lwyr ar gyfer mentrau trawsadrannol.  Bydd y strategaethau trawsbynciol newydd a chyflwyniad dull gweithredu cyffredin ar gyfer cynllunio busnes ar draws Llywodraeth Cymru yn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn a gweithio at leihau dyblygiad a chreu effeithlonrwydd wrth gyflawni a darparu gwasanaethau.  Er enghraifft, rydym yn gwerthuso cymorth busnes ar draws y portffolios Trafnidiaeth, Iechyd ac Addysg.

## 6.0 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Ym mhob un o'r tair blynedd ddiwethaf, rydym wedi defnyddio dull integredig o asesu effaith, a chanolbwyntio ar wneud penderfyniadau cyllidebol strategol gwybodus sy'n seiliedig ar ddadansoddiad o dystiolaeth ategol am grwpiau

gwarchodedig.  Mae hyn wedi cynnwys ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth baratoi i gyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r gwaith integredig strategol o asesu'r effaith yn edrych ar dystiolaeth mewn ffordd gydgysylltiedig ym mhopeth a wnawn.  Ar gyfer cyllideb 2017-18 roedd yn rhan o ddogfennaeth y gyllideb, yn hytrach na dogfen ar wahân, er mwyn i'r darllenwr allu gweld sut y gwneir penderfyniadau ar y gyllideb mewn dull sy'n alinio â'r dystiolaeth ategol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu ein cynlluniau.  Rydym wedi mabwysiadu safbwynt hirdymor ac rydym yn defnyddio dull integredig wrth wneud penderfyniadau i gefnogi'r saith nod yn y Ddeddf.

Rydym wedi parhau i edrych ar y ffordd yr ydym yn ymgorffori'r pum ffordd o'n helpu i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl, hysbysu cynlluniau sy'n Symud Cymru Ymlaen, rhoi ystyriaeth well i'r effeithiau ar grwpiau gwarchodedig a chefnogi ffocws ar ein nodau cenedlaethol cyffredin:

http://gov.wales/docs/desh/publications/160316-national-indicators-to-be-laid-before-nafw-cy.pdf

Mae angen cynigion ar gyfer unrhyw weithgarwch busnes i ddarparu tystiolaeth y byddant wedi'u halinio i gyflawni un neu fwy o'r saith Nod Llesiant yn ogystal ag un neu fwy o amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru.  Hefyd, mae angen i feysydd cyflawni ddangos bod pum egwyddor gweithio'n gynaliadwy wedi'u gweithredu pan fydd hynny'n bosibl, wrth baratoi achosion busnes.  Wrth gytuno ar ddyraniadau gyda meysydd busnes rydym yn asesu effeithiau'r elfennau hyn ynghyd â ffactorau eraill i sicrhau bod penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar gyllidebau yn cefnogi'r achosion busnes mwyaf priodol.

Yn ogystal, rydym wedi bod yn cysylltu â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i sicrhau ein bod yn mabwysiadu'r dull gweithredu yn gywir ac yn helpu i gyflawni'r newidiadau sylfaenol sydd eu hangen fel rhan o'r Ddeddf.

## 7.0 Symud Cymru Ymlaen

Mae Symud Cymru Ymlaen yn datgan ein gweledigaeth i gyflenwi mwy o swyddi a swyddi gwell drwy economi gryfach a thecach a chreu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio ffynonellau tystiolaeth amrywiol wrth gyfrifo'r buddiannau a'r costau posibl ar gyfer cyflawni elfennau unigol y strategaethau.  Er enghraifft, mae Tasglu'r Cymoedd yn gweithio ar draws Llywodraeth Cymru yn awr a rhanddeiliaid allanol i bennu'r amcanion a'r dulliau gorau o'u cyflawni.  Mae hyn yn arddangos dull mwy cydgysylltiedig ar draws y meysydd portffolio a sut y bydd cyllidebau'n cael eu blaenoriaethu i gyflawni'r canlyniadau gorau.

Rydym yn parhau i ddatblygu dull o adrodd ar gynnydd yn erbyn y gwaith o gyflawni Symud Cymru Ymlaen a'n hamcanion llesiant. Mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth reolaidd am gynnydd a lleihau'r nifer o ddangosyddion a mesurau perfformiad i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar symud y gwaith o gyflawni ein hymrwymiadau ymlaen.

## 8.0 Cymorth/cyllid busnes

Cyhoeddwyd *Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd* ym mis Gorffennaf 2010 a nododd Gyllid Busnes Ad-daladwy fel un o'r ffyrdd allweddol o gefnogi busnesau. Mae'r tabl isod yn dangos y dadansoddiad o'r cyllid o fenthyciadau a grantiau a dalwyd o gyllidebau'r Sectorau a Busnes ers 2011-12 (y flwyddyn lawn gyntaf ers cyflwyno'r Rhaglen Adnewyddu'r Economi). Nid yw hyn yn cynnwys yr ystod o gynigion grant sydd wedi'u gwneud nad ydynt wedi'u defnyddio eto gan hawlwyr. Yn y 6 blynedd ddiwethaf, roedd 24% o'r cyllid cyfalaf o grantiau a benthyciadau yn ad-daladwy. Nid oedd angen ad-dalu'r balans a oedd yn weddill.

| CYFALAF | 2011/12 £'000 | 2012/13 £'000 | 2013/14 £'000 | 2014/15 £'000 | 2015/16 £'000 | 2016/17 £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | | | |
| Grantiau nad ydynt yn cael eu Had-dalu | 27,570 | 45,264 | 49,727 | 57,605 | 37,220 | 26,462 | **243,848** |
| Grantiau Ad-daladwy | 170 | 1,017 | 3,505 | 4,017 | 12,944 | 1,280 | **22,933** |
| Benthyciadau Masnachol | 0 | 16,830 | 1,560 | 8,100 | 15,786 | 10,834 | **53,110** |
| **Cyfanswm** | **27,740** | **63,111** | **54,792** | **69,722** | **65,950** | **38,576** | **319,891** |
| **Incwm** | | | | | | | |
| Grantiau Ad-daladwy | 0 | (142) | (596) | (277) | (866) | (1,756) | **(3,637)** |
| Benthyciadau Masnachol | 0 | 0 | 0 | (465) | (787) | (1,821) | **(3,073)** |
| **Cyfanswm** | **0** | **(142)** | **(596)** | **(742)** | **(1,653)** | **(3,577)** | **(6,710)** |

Mae rhag-amodau ynghlwm â chynigion a wneir i fusnesau, ac mae'n rhaid i'r rhain gael eu cyflawni cyn y rhyddheir cyllid. Mae'r amodau yn cynnwys cyflawni cerrig milltir penodol a fydd wedi'u rhestru yn y llythyr cynnig, er enghraifft creu nifer o swyddi, swm o gyfalaf i'w fuddsoddi ac yn y blaen.

Yn y pedair blynedd ddiwethaf, mae'r allbynnau a gyflawnwyd wedi cyflawni neu ragori ar y targedau, ac yn y chwe blynedd gyfan mae'r rhaglen wedi llwyddo i gyflawni'r disgwyliadau. Mae swyddogion yn defnyddio ystod eang o ddulliau cymorth busnes i helpu busnesau i dyfu mewn ffordd gynaliadwy, gan

gynnwys - grantiau Ad-daladwy a rhai nad ydynt yn cael eu Had-dalu, Benthyciadau Masnachol, Hyfforddiant, Arloesedd ac atebion Eiddo.

Oherwydd natur integredig ein cymorth, lle bydd nifer o ffactorau'n berthnasol, nid dim ond un rhaglen ariannol unigol, nid yw'n briodol nac yn bosibl cyfateb allbynnau penodol yn gywir i ddulliau unigol o fuddsoddi cymorth i ddiwydiant. Fodd bynnag, dros amser, mae cyfanswm o fwy na 185,000 o swyddi wedi'u cefnogi gan holl offerynnau cymorth Llywodraeth Cymru.

## 9.0 Sefydlu banc datblygu

Roedd Cyllideb Ddrafft 2017/18 yn cynnwys £45.75 miliwn dros bedair blynedd ar gyfer Banc Datblygu Cymru i wella gallu BBaCh i gael mynediad at gyllid a chefnogi swyddi a thwf. Nid yw'r rhagdybiaethau cyllido wedi newid.

Yr ydym yn gweithio yn awr i drosglwyddo Cyllid Cymru yn ddi-dor i Fanc Datblygu Cymru, gan adeiladu ar y profiad a'r arbenigedd sy'n bodoli yn Cyllid Cymru a chanolbwyntio ar fynd i'r afael â methiannau yn y farchnad. Mae swyddogion yn cynnal gwerthusiad llawn o'r cynllun ac yn gweithio gyda Cyllid Cymru i gwblhau materion rheoliadol amrywiol, sy'n cynnwys cydymffurfiaeth â Chymorth Gwladwriaethol.

Mae nifer o brosiectau pontio allweddol wedi'u datblygu a fydd yn arwain at drawsnewid Cyllid Cymru yn Fanc Datblygu Cymru, sy'n cynnwys:

- Gweithgor o uwch swyddogion Busnes Cymru a Cyllid Cymru i wella'r gwaith o integreiddio'r ddarpariaeth o gyngor a chymorth ariannol a busnes i fusnesau. A chanolbwyntio yn benodol ar fethiannau yn y farchnad, Dechrau Busnesau, Arloesedd, microfusnesau a busnesau bach;

- Helpu busnesu yng Nghymru i gael mynediad at gyllid y sector preifat gan ystod eang o ddarparwyr, gan ddefnyddio amrediad o ddulliau cyllido;

- Gallu gwell o ran technoleg gwybodaeth;

- Strategaeth leoli ddiwygiedig, gan gynnwys pencadlys newydd yng Ngogledd Cymru;

- Brandio a dulliau cyfathrebu newydd (sy'n ymgorffori cymeradwyaeth a dderbyniwyd gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i ddefnyddio'r term 'banc');

Bydd Aelodau'r Cynulliad yn derbyn diweddariad pellach cyn toriad yr haf.

## 10.0 Bargen Ddinesig Caerdydd

Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sy'n werth £1.2bn yn cynnwys £734m ar gyfer Metro De Cymru, ac mae mwy na £503 miliwn o'r

swm hwn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, £125 miliwn gan Lywodraeth y DU a £106 miliwn gan ERDF. Cynhaliodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol a minnau bapur cyd-dystiolaeth i'r Pwyllgor ar Fargeinion Dinesig ac Economïau Rhanbarthol Cymru.

Mae Metro De Cymru yn elfen arwyddocaol o'r buddsoddiad yn y seilwaith. Mae'r broses gaffael wedi dechrau ac mae Llywodraeth Cymru a Chyd-Gabinet y Fargen Ddinesig wedi cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n rhoi amlinelliad o'r rolau a'r rhyngweithiadau ar gyfer dylunio a chyflawni camau o'r Metro yn y dyfodol.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cefnogi proses gaffael Llywodraeth Cymru, ac yn darparu cyngor ac arbenigedd ac yn arwain trafodaethau ar ein rhan. Er mwyn sicrhau cystadleuaeth deg ac agored a diogelu integredd y broses, nid yw'n bosibl rhyddhau unrhyw fanylion penodol am gyllid, neu bydd Llywodraeth Cymru'n wynebu'r risg o her gyfreithiol.

## 11.0 Diweddariad ar gymorth i'r diwydiant dur

Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i ddiogelu a chynnal diwydiant dur yng Nghymru, sy'n cynnwys cadw'r sylfaen sgiliau perthnasol ar gyfer y sector. Mae arloesedd hefyd yn elfen hollbwysig i sicrhau bod y diwydiant dur yng Nghymru yn parhau i fod yn gystadleuol yn rhyngwladol yn yr hirdymor.

Yn 2016-17 darparwyd £4 miliwn ar gyfer cymorth sgiliau i Tata a chyhoeddwyd £8 miliwn pellach gan y Prif Weinidog ar gyfer y gwaith dur ym Mhort Talbot er mwyn lleihau costau ynni ac allyriadau carbon:

http://gov.wales/newsroom/firstminister/2016/161208tata/?skip=1&lang=cy

Darperir cymorth ehangach i'r diwydiant dur yn y cyllidebau Sectorau a Busnes. Yn Chwefror cyhoeddais gyllid o £2.8 miliwn a fydd yn cefnogi buddsoddiad a 550 o swyddi:

http://gov.wales/newsroom/businessandeconomy/2017/170208-welsh-government-investment-in-steel-creates-and-safeguards-550-jobs/?skip=1&lang=cy

Rydym hefyd wedi buddsoddi mwy na £660,000 mewn ymchwil a datblygiad blaenllaw i helpu i ddiogelu dyfodol hirdymor cynhyrchu dur yng Nghymru:

hhttp://gov.wales/newsroom/businessandeconomy/2017/170510-welsh-government-invests-over-660000-to-develop-higher-strength-steel-products-to-safeguard-the-industrys-future-in-wales/?skip=1&lang=cy

Mae'r prosiectau'n cael eu proffilio ar draws blynyddoedd ariannol. Rydym yn parhau i weithio gyda Tata Steel yng Nghymru ac mae cyllid ar gael yn ystod y flwyddyn i gefnogi blaenoriaethau ond mae'r manylion yn fasnachol gyfrinachol. Felly, mae buddsoddiad cynaliadwy yn y diwydiant dur yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer datblygiad economaidd.

## 12.0 Perfformiad wrth gyflawni prosiectau seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru (o fewn y gyllideb ac ar amser)

Mae cynlluniau ffyrdd yn cael eu cyflawni yn unol â'r strwythurau a'r dulliau cytundebol ac maent yn defnyddio dulliau safonol y diwydiant, er enghraifft dulliau "prisiau sefydlog" a "chostau targed". Mae'r rhain yn ceisio cyfyngu ein hamlygiad i risgiau neu o leiaf sicrhau bod y dull o rannu risgiau yn cael ei fabwysiadu naill ai gan ein contractwyr neu ein partneriaid cyflenwi. Byddwn yn parhau i ddefnyddio addasiadau i'r proffil gwariant i reoli dulliau o'r fath.

Mae'r gwaith o reoli rhaglenni a phrosiectau ffyrdd yn cael ei gynnal yn unol â "Chanllaw Gweithdrefnau Prosiectau Ffordd: Llywodraeth Cymru" (sy'n ymgorffori Canllawiau Arfarnu Trafnidiaeth Cymru - WelTAG). Canlyniad adolygiad diweddar gan ymgynghorwyr allanol oedd bod hyn yn cynrychioli arfer da. Felly, mae'r gweithdrefnau sydd ar waith i fonitro'r costau a'r amserlenni yn destun adolygiad a heriau parhaus.

Mae'r cytundeb masnachfraint rheilffyrdd wedi bod gweld costau'n cynyddu'n flynyddoedd oherwydd gwasanaethau ychwanegol a Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) cytundebol yn ogystal â chynnydd mewn chwyddiant Cyflog Cyfartalog. Fodd bynnag, ar gyfer 2017-18 caiff hyn ei reoli drwy elfennau perfformiad y contract a thrwy liniaru'r cynnydd a ragwelwyd i gostau drwy'r lefelau is diweddar o chwyddiant RPI na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol. Rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa.

Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar ddatganoli pwerau ar gyfer y rheilffyrdd yng Nghymru. Yn y cyfamser, yr Adran Trafnidiaeth/Network Rail sy'n gyfrifol am gyflenwi prosiect seilwaith y rheilffyrdd. Rydym yn gweithio'n agos gyda phob un o'n partneriaid cyflenwi rheilffyrdd ac yn anelu at gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru drwy ddylanwadu ar ac, mewn rhai achosion, gwneud cyfraniadau uniongyrchol er mwyn datblygu cynlluniau.

Er mwyn monitro perfformiad, mae gan bob prosiect eu bwrdd prosiect eu hunain sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi sefydlu Bwrdd y Rhaglen Rheilffyrdd er mwyn darparu gwybodaeth lefel uwch am yr holl brosiectau rheilffordd. Mae'r Bwrdd hwn yn cynnwys Uwch Swyddogion o Lywodraeth Cymru a chynrychiolwyr Network Rail, Trenau Arriva Cymru a'r Adran Drafnidiaeth.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda'r Adran Drafnidiaeth a Network Rail i geisio hwyluso newid yn y ffordd y bydd y seilwaith rheilffyrdd yn cael ei gyflenwi ar gyfer Metro De Cymru. Mae'n cynnig cyflwyno cysyniad o bartner cyflenwi seilwaith ochr yn ochr â Phartner Cyflenwi Gweithredol. Er mwyn cefnogi'r sgwrs barhaus hon a gwella gallu hir dymor i reoli prosiectau, mae Llywodraeth Cymru yn gwella ei gwybodaeth a'i sgiliau ei hun drwy sefydlu arbenigedd penodol o fewn Trafnidiaeth Cymru.

## 13.0 Gweithredu canlyniadau'r adolygiad o Asiantwyr Cefnffyrdd

Mae'r Asiantwyr Cefnffyrdd wedi ymrwymo i ostyngiad o £14 miliwn ar gyfer cyflawni gweithgareddau cynnal a chadw cylchol ac arferol erbyn 31 Mawrth 2018. Mae hyn yn cynnwys arbedion effeithlonrwydd o £8 miliwn a £6 miliwn arall fel targed eithaf.

Mae ffigurau altro ar gyfer 2016-17 yn cadarnhau bod yr asiantwyr ar y trywydd cywir i gyflawni'r £14 miliwn llawn erbyn diwedd cyfnod yr adolygiad a'u bod wedi cyflawni tua £8 miliwn yn y flwyddyn gyntaf. Cafodd llawer o hyn ei ailgylchu i gynlluniau ychwanegol ar y rhwydwaith sydd wedi gwella'r ased. Cyflawnwyd hyn drwy gyfuniad o:

- Manyleb cynnal a chadw ddiwygiedig;
- Dull caffael newydd ac agored ar gyfer cyflawni gwaith cylchol ac arferol;
- Trosglwyddo nifer o ddyletswyddau archwilio gofynnol yn uniongyrchol i'r Asiantwyr Cefnffyrdd yn hytrach na'r gwasanaethau a gafaelir.

Cafodd achosion busnes a gyflwynwyd gan yr Asiantwyr Cefnffyrdd eu hadolygu a'u cymeradwyo'n annibynnol cyn dechrau'r ymarfer.

Nid yw perfformiad yr Asiantwyr Cefnffyrdd yn cael ei gyfaddawdu drwy wneud arbedion. Mae cynnal diogelwch wedi bod yn ystyriaeth hollbwysig yn ystod yr adolygiad hwn, yn arbennig yn yr ail elfen 'lleihau gwasanaeth'. Mae eitemau sy'n effeithio ar ddiogelwch neu gydymffurfiaeth ddeddfwriaethol wedi'u cynnal ac mae rhai gwasanaethau y gellid eu hystyried yn 'werth ychwanegol', er enghraifft torri gwair, wedi'u lleihau er mwyn cynnal cydymffurfiaeth diogelwch sylfaenol megis gwelededd yn unig. Mae'r adolygiad o'r fanyleb cynnal a chadw ar gyfer lefelau gwasanaeth yn broses barhaus ac ailadroddol. Mae swyddogion yn fodlon gydag arbedion y flwyddyn gyntaf a byddant yn comisiynu archwiliad annibynnol ar ôl i Swyddfa Archwilio Cymru gynnal ei ardystiad o'r costau, sy'n debygol o gael ei gynnal yn ystod tymor yr Hydref 2017.

## 14.0 Cymorth ar gyfer gwasanaethau bysiau a thocynnau teithio rhatach

Lansiwyd ymgynghoriad ar y gwasanaethau bysiau yng Nghymru ar 8 Mawrth 2017, yn dilyn yr Uwchgynhadledd Fysiau ar 23 Ionawr 2017. Bydd yr ymatebion yn cael eu hasesu yng nghyd-destun gofynion cyllidebol yn y dyfodol.

Mae'r ymgynghoriad, ymysg materion eraill, yn cydnabod y gorgyffwrdd cyllid i'r diwydiant bysiau gan sectorau amrywiol megis Llywodraeth Leol, Iechyd ac Addysg. Rhagwelir y bydd cyfuno cyllidebau, budd-daliadau, arbedion a synergeddau yn cyflawni gwelliannau sylweddol i wasanaethau bysiau yng Nghymru.

Yn 2017/18, mae cyllid cefnogi bysiau o tua £90 miliwn ar gael o fewn MEG yr Economi a'r Seilwaith, sy'n cynnwys grant cefnogi bysiau o £25 miliwn. Er bod gwasanaethau'n cael eu hystyried yn fforddiadwy ar gyfer y flwyddyn

bresennol, mae'n amlwg, gyda phwysau chwyddiant a phoblogaeth sy'n heneiddio, y bydd gallu Llywodraeth Cymru i barhau i gefnogi pob menter yn mynd yn fwyfwy anghynaliadwy oni fydd y cyllid llinell sylfaen presennol yn cynyddu'n sylweddol neu heb newid sylfaenol i'r ffordd y cefnogir gwasanaethau. Bydd yr ymgynghoriad ar wasanaethau bysiau yng Nghymru yn gam sylweddol yn yr elfen hon.

### a) Y Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach

Mae'r gyllideb Tocynnau teithio rhatach o tua £61 miliwn wedi'i chynnal ar gyfer 2017-18. Fel rhan o'r adolygiad o wasanaethau bysiau yng Nghymru, rhoddir ystyriaeth yn awr i'r ffordd orau o barhau i gyflenwi'r cynllun hwn ar sail gynaliadwy.

### b) Fy Ngherdyn Teithio

Cyflwynwyd Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc ar sail beilot am 18 mis ym Medi 2015. Rydym wedi gweithio gyda'r diwydiant bysiau i barhau gyda'r fenter hon, gyda chyfraniad is o lawer gan Lywodraeth Cymru ar ôl y dyfarniad cychwynnol i ddatblygu'r cynllun. Bydd y costau gwirioneddol yn dibynnu ar y nifer o deithiau a gofnodir. Yn 2016-17 roedd y gwariant yn £9.743 miliwn.

Ar 21 Chwefror 2017 cyflwynais Ddatganiad Ysgrifenedig ar deithio ar fysiau i bobl ifanc, sydd ar gael ar y ddolen isod:

http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/youthbustravel/?skip=1&lang=cy

Hyd yma, cyhoeddwyd tua 9,250 o Gardiau Teithio yn erbyn cohort oedran o tua 110,000. Gofynnwyd i Gydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru (cymdeithas fasnachu'r diwydiant bysiau) ddatblygu a chyflwyno ymgyrch farchnata a chyhoeddusrwydd ar gyfer 'Fy Ngherdyn Teithio' yn ystod 2017-18. Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo tua £120,000 (sy'n cynnwys TAW) i dalu am gost yr ymgyrch honno.

### c) Traws Cymru

Mae'r rhwydwaith o wasanaethau bellach yn ymgorffori saith llwybr allweddol, a chludodd tua 1.6 miliwn o bobl yn 2016-17. Mae'r llwybrau hyn hefyd wedi elwa ar gyflwyno bysiau newydd, gwasanaethau mwy aml, mwy o ddewisiadau tocynnau fforddiadwy a chysylltedd gwell mewn canolfannau allweddol.

Yn ogystal â chyhoeddiad diweddar y Prif Weinidog, mae trefniadau'n cael eu gweithredu i gyflwyno menter beilot fawr o docynnau teithio am ddim ar draws rhwydwaith TrawsCymru ar benwythnosau, gan ddechrau ym mis Gorffennaf 2017. Yn 2017-18, mae hyn yn cael ei gefnogi gan gyllideb o £1 filiwn a fydd yn cael ei hadolygu tuag at ddiwedd y flwyddyn.

## 15.0 Cyflawni Metro De a Gogledd Cymru

Rydym yn bwrw ymlaen â'r broses gaffael ar sail y cytundeb a wnaed yn 2014 i drosglwyddo swyddogaethau rhyddfreinio. Mae'r cytundeb hwn yn diogelu'r Grant Bloc rhag effeithiau adolygiadau rheoliadol o daliadau mynediad cledrau a gorsafoedd ac rydym wedi cysylltu fforddiadwyedd y gwasanaethau rheilffyrdd y byddwn yn disgwyl i'r Grant Bloc dalu amdanynt. Er nad oedd y Grant Bloc yn darparu ar gyfer twf, rydym yn hyderus y gallwn barhau i gyflawni, ar yr amod na wneir newidiadau i'r dyraniad bloc grant, bod Llywodraeth y DU yn cytuno ar y trefniadau ariannol sy'n cael eu trafod yn awr a bod y dyraniadau dilynol a wneir i'r Adran Drafnidiaeth yn parhau'n ddigyfnewid ar y lefelau presennol.

Mae cyflawni ein huchelgais yn ddibynnol ar y canlynol:

- Mae Llywodraeth y DU yn trosglwyddo'r pwerau ar amser ac fel y cytunwyd arnynt.

- Mae Llywodraeth y DU a Network Rail yn cytuno ar ein cynlluniau ar gyfer Cledrau'r Cymoedd, sy'n cael eu trafod yn awr.

- Mae'r Adran Drafnidiaeth yn cytuno ar drefniadau ariannol addas ar gyfer seilwaith Cledrau'r Cymoedd.

## a) Metro De Cymru

Bydd y seilwaith sydd ei angen i gyflenwi gwasanaethau Metro De Cymru yn cael eu penderfynu gan y cynnig sydd yn y cynnig llwyddiannus a gyflwynir i Weithredwr a Phartner Cyflenwi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd a'r Metro. Bydd hyn yn hysbys ar ddiwedd 2017. Mae ymgeiswyr wedi derbyn amlen gyllid y mae'n ofynnol iddynt allu cyflenwi'r seilwaith cyfalaf a gweithredu gwasanaethau, a disgwyliwn i'r ymgeiswyr gyflwyno'r system costau oes gyfan gorau, yn seiliedig ar ein canlyniadau gofynnol. Mae'r gyllideb ddangosol isod yn adlewyrchu proffil cyflenwi posibl, sy'n cynnwys chwyddiant, TAW a rhagfarn optimistiaeth.

| Cyllid Cyfalaf | 2017/18 £'000 | 2018/19 £'000 | 2019/20 £'000 | 2020/21 £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd Canolog | 5,088 | 27,440 | 41,400 | 35,500 | **109,428** |
| Dyraniad | 15,263 | 54,880 | 82,800 | 106,500 | **259,443** |
| **Cyfanswm** | **20,351** | **82,320** | **124,200** | **142,000** | **368,871** |

Mae elfen refeniw'r amlen gyllid a roddwyd i'r ymgeiswyr ar gyfer cyflenwi'r holl wasanaethau ar draws Cymru, gan gynnwys gwasanaethau Rheilffordd Graidd y Cymoedd yn ystod oes y contract. Fodd bynnag, dylid nodi na fydd y cytundeb newydd yn dod i rym tan 2019 ac nad yw'r cyllidebau refeniw ar gyfer y flwyddyn honno (a thu hwnt) wedi'u pennu eto, er bod y rhagolygon dangosol yn cael eu hystyried yn rhai fforddiadwy yng nghyd-destun y darpariaethau cyllidebol presennol.

## b) Metro Gogledd Cymru

Mae datblygu Metro Gogledd Cymru yn un o ymrwymiadau allweddol rhaglen Symud Cymru Ymlaen. Mae trafnidiaeth yn elfen bwysig iawn i ysgogi twf economaidd ac mae cysylltedd da yng ngogledd Cymru a chysylltedd gyda rhanbarthau eraill yn rhan hollbwysig o'r llwyddiant hwnnw/ Ar 2 Mawrth lansiais '*Symud Gogledd Cymru Ymlaen – Ein Gweledigaeth ar gyfer Gogledd Cymru a Metro Gogledd-ddwyrain Cymru'* sy'n amlinellu'r cynllun ac mae ar gael drwy'r ddolen isod:

http://gov.wales/newsroom/transport/2017/170302-wg-sets-out-plans-for-a-north-east-wales-metro/?skip=1&lang=cy

Roedd Cyllideb 2017-18 yn cynnwys £50 miliwn dros bedair blynedd i ddechrau cyflenwi Metro Gogledd Cymru. Nid Llywodraeth Cymru yn unig sy'n gyfrifol am ariannu'r rhaglen foderneiddio hon. Mae cydweithrediad a chydgysylltiad rhwng y cyrff sy'n cyflenwi swyddogaethau trafnidiaeth ar draws y rhanbarth ac ar draws y ffin yn hollbwysig er mwyn creu'r effaith fwyaf o'n buddsoddiadau trafnidiaeth a sicrhau integreiddiad llawn.

Gwneir buddsoddiad sylweddol eisoes yn y Rhanbarth a bydd hyn yn parhau drwy'r rhaglenni trafnidiaeth amrywiol gan gynnwys Trydedd Pont i Fôn, Ffordd osgoi Caernarfon, Pont Afon Dyfrdwy a choridor yr A494 Glannau Dyfrdwy.

## c) Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd

Mae'n rhaid i dermau unrhyw setliad ariannol cysylltiedig sy'n mynd ochr yn ochr â throsglwyddo pwerau rhyddfreinio adlewyrchu'r gost o ddarparu gwasanaethau, gan ystyried twf hanesyddol a thwf yn y dyfodol. Mae'n rhaid i ni sicrhau nad yw Llywodraeth Cymru ar ei cholled yn ariannol yn sgil y setliad ariannol o dan y trefniadau newydd ar gyfer y gwasanaethau rheilffyrdd a'r seilwaith Metro.

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt yn awr rhwng swyddogion Trafnidiaeth Cymru a Network Rail ar drosglwyddo Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd. Datblygwyd telerau pennawd cychwynnol a fydd yn destun negodiadau masnachol a ffyrdd o weithio cydweithredol. Y cytundeb ar gyfer yr Adran Drafnidiaeth yw darparu £125 miliwn mewn prisiau 2-14 tuag at gynllun Cledrau'r Cymoedd. Mae gennym ryddid llwyr i ddatblygu cwmpas terfynol y cynllun, gan ddilyn canllaw Llyfr Gwyrdd er mwyn gallu cyflawni'r gwerth am arian gorau.

# 16.0 Newidiadau i'r ffigurau yn y Gyllideb Atodol Gyntaf

Mae'r newidiadau MEG i Gyllideb Atodol Gyntaf 2017-18 wedi'u crynhoi gyda nodiadau esboniadol yn **Atodiad A.** Yn ogystal, ail-ddyrannwyd cyfalaf craidd ychwanegol o £12,355 ar gyfer Datblygu Seilwaith sy'n Gysylltiedig ag Eiddo, a oedd yn cael ei ariannu'n flaenorol gan Gronfa Trafodiadau Ariannol.

## Cyllideb Atodol Gyntaf 2017-18 – Trosolwg o'r Newidiadau  Atodiad A

| Gweithred | Refeniw £'000 | Cyfalaf £'000 | Anarian nol £'000 | AME[1] £'000 | Cyfanswm £'000 | Manylion |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol 2017/18** | **607,134** | **520,238** | **195,898** | **112,065** | **1,435,335** | |
| Gwasanaethau a Buddsoddiad yn y Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr | 750 | 1,600 | | | 2,350 | Mae'r cyllid yn ategu cyhoeddiad gan y Prif Weinidog ym Mawrth 2017 i ddarparu Wi-Fi am ddim ar drenau yn y 50 gorsaf brysuraf. Bydd hyn yn cyflymu'r ddarpariaeth o gysylltiadau di-dor i gwsmeriaid. |
| Trafnidiaeth Gynaliadwy | (600) | 600 | | | - | O'r £2 filiwn ychwanegol a ddarparwyd yng Nghytundeb y Gyllideb ar gyfer datblygu porthladdoedd, cafodd £0.6 miliwn ei ailddyrannu ar gyfer seilwaith cyfalaf megis hybu systemau nwyddau rhyngfoddol cynaliadwy, buddsoddi mewn twristiaeth a gosodiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel. |
| Dewisiadau Addysg a Gyrfaoedd | 18,800 | | | 6,000 | 24,800 | Trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros y portffolio o'r MEG Addysg i Gyrfa Cymru, a fydd yn alinio'r gwsanaethau ehangach, gan gynnwys cefnogi cyfleoedd cyflogaeth a chyflenwi'r rhaglen Brentisiaeth. Mae'r ddarpariaeth AME ar gyfer pensiynau. |
| Seilwaith sy'n gysylltiedig ag Eiddo – AME | | | | 15,000 | 15,000 | Mae angen darpariaeth ychwanegol i dalu am gostau megis namau yn y portffolio eiddo. |
| Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd - AME | | | | (826) | (826) | Mae angen lleihau'r ddarpariaeth er mwyn talu am gostau'r rhwydwaith ffyrdd. Llithriadau yn y cynllun |
| **Cyllid Atodol Mehefin** | **626,084** | **522,438** | **195,898** | **132,239** | **1,476,659** | |

[1] *Mae AME yn darparu ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu harwain gan alw, megis pensiynau a namau, a phan nad yw'n bosibl rhagweld allbwn gyda sicrwydd.*

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# PWYLLGOR YR ECONOMI, SEILWAITH A SGILIAU
# TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG – TAGFEYDD BYSIAU

1. Pwrpas y papur hwn yw rhoi tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau am Dagfeydd Bysiau.

**Cefndir**

2. O beidio â gwneud rhywbeth yn eu cylch, bydd tagfeydd yn effeithio ar economi, amgylchedd ac iechyd pobl Cymru ac mae'r rhagolygon yn awgrymu y bydd mwy a mwy yn defnyddio'r ffyrdd. Dyna pam y mae Llywodraeth Cymru'n rhoi blaenoriaeth i leihau tagfeydd ar y ffyrdd. Mae'n rhan annatod o Strategaeth Trafnidiaeth Cymru a'r Cynllun Cyllido Trafnidiaeth Cenedlaethol.

3. Mae'r Cynllun Cyllido Trafnidiaeth Cenedlaethol, a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2015, yn cynnig rhaglen dreigl pum mlynedd o gynlluniau trafnidiaeth i'w cynnal ledled Cymru. Mae'n targedu pum prif faes: twf economaidd; trechu tlodi; teithio cynaliadwy a diogelwch; hwyluso cael at waith a gwasanaethau. Mae'n disgrifio'r mesurau rydym yn eu cymryd i sicrhau bod Cymu'n cael ei chysylltu trwy rwydwaith trafnidiaeth dibynadwy, modern ac integredig.

4. Rydym yn cymryd nifer o gamau i leihau tagfeydd ar heolydd Cymru. Yn eu plith y mae datblygu cyfres o fodelau i'n helpu i ragweld y galw yn y dyfodol er mwyn inni allu cynllunio ymlaen.

5. Rydym hefyd wedi rhoi pwerau i awdurdodau lleol allu cymryd camau gorfodi sifil yn erbyn nifer o dramgwyddau ar y ffyrdd, gan gynnwys troseddau parcio, defnyddio lonydd bysiau a rhai'n ymwneud â rhwystro'r traffig rhag symud.

6. Os caiff fynd trwy'n proses statudol gyfredol, bydd ein cynnig ar gyfer Coridor yr M4 ger Casnewydd yn fuddsoddiad arwyddocaol yn seilwaith y De, gan gynnig ateb tymor hir a chynaliadwy i'r problemau tagfeydd wrth y porth hwn i Gymru. Rydym yn buddsoddi dros £40 miliwn hefyd i ailwampio Twnelau Bryn-glas a Phont Wysg.

7. Rydym yn gweithio hefyd â phartneriaid lleol i nodi'r mannau sy'n arafu'r traffig ac i gynnal gwelliannau i'r seilwaith er mwyn esmwytho llif y traffig. Rydym newydd gyhoeddi £24 miliwn ar gyfer y mannau cyfyng hyn ar ein cefnffyrdd. Bydd hynny'n gyfle inni wneud mwy i unioni'r cyffyrdd sy'n achosi tagfeydd ac ystyried gwella cyfleoedd goddiweddyd ar ffyrdd pwysig o'r Gogledd i'r De.

8. Yn ogystal, caiff £15 miliwn arall ei neilltuo o gronfa'r rhwydwaith trafnidiaeth leol i wneud ffyrdd yn fwy diogel a chydnerth ac i hwyluso'r symud ar goridorau bysiau strategol. Mae'r arian sylweddol hwn yn rhan o werth £83 miliwn o arian cyfalaf ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i noddi cynlluniau ffyrdd a thrafnidiaeth yng Nghymru.

9. Mae darparu seilwaith ar gyfer Teithio Llesol yn ganolog ar gyfer moderneiddio'n rhwydwaith trafnidiaeth a darparu system drafnidiaeth integredig yng Nghymru a fydd yn helpu i leihau allyriadau a thagfeydd.

10. Rydym yn ariannu nifer o brosiectau newid ymddygiad, er enghraifft, trwy'n nawdd ar gyfer Cydgysylltwyr Cynlluniau Teithio a hyfforddiant i gerddwyr a beicwyr fel

Her Teithio Cymru a'r rhaglen Teithiau Iach. Rydym yn buddsoddi hefyd mewn systemau sy'n helpu i reoli teithiau llesol, er enghraifft monitro'r rhwydwaith trwy ein canolfannau rheoli traffig cenedlaethol.

11. Rydym eisoes wedi rhoi cymorth sylweddol trwy gomisiynu arolwg o'r seilwaith cerdded a beicio yng Nghymru a datblygu system mapio data teithiau llesol sy'n cael ei defnyddio gan bob awdurdod lleol i wneud mapiau.

12. Rydym ni'n credu bod gwella'n system trafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol i wella ansawdd bywyd pobl Cymru ac rydym yn eu hannog i newid i drafnidiaeth gyhoeddus trwy fuddsoddi yn ein system trafnidiaeth gyhoeddus trwy:
    - Gefnogi gwasanaethau trên a bws
    - Moderneiddio trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru
    - Datblygu rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus Integredig fel y Metro yn y De a'r Gogledd.

13. Byddwn yn parhau i noddi gwasanaethau trên a bws ac yn moderneiddio trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru gan gynnwys datblygu rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus integredig fel y Metro. Bydd y cynigion ar gyfer Metro'r De'n cynnwys rhwydwaith transit cyflym integredig aml-foddol fydd yn cynnwys gwella gwasanaethau trên a bws. Bydd yn darparu gwasanaethau cyflymach, mwy cyson a mwy unedig gan ddefnyddio trenau, bysiau a rheilffyrdd ysgafn.

14. Mae angen gwella'r cysylltiadau er mwyn cynnal y twf yn y boblogaeth ac i leihau prysurdeb ar y ffyrdd a bydd prosiect y Metro'n lasbrint ar gyfer trafnidiaeth Integredig ar gyfer Cymru gyfan, gan weddnewid argoelion economaidd a chymdeithasol y wlad.

**<u>Y Diwydiant Bysiau</u>**

15. Nid oes dwywaith bod tagfeydd traffig yn cael effaith andwyol ar ddibynadwyedd a phrydlondeb gwasanaethau bws, a bod hynny'n ei gwneud yn llai deniadol teithio ar fws.

16. Rydym yn ariannu ac yn cynnal nifer o ymyriadau i leihau tagfeydd fel yr eglurwyd uchod ac rwy'n dal i ymrwymo i rwydwaith trafnidiaeth integredig a fydd, yn fy marn i, yn mynd i'r afael â phroblemau fel tagfeydd traffig a llygredd.

17. Ond mae angen inni hefyd annog modurwyr i ddefnyddio'r bws yn amlach trwy wneud bysiau'n fwy deniadol o ran pris, trwy system docynnau cystadleuol a syml, trwy gynlluniau tocynnu y gall sawl gweithredwr eu defnyddio, gyda threfniadau rhannu refeniw teg ac agored yn sail iddynt a thrwy hysbysebu rhinweddau'n rhwydwaith bysiau.

18. Gan ddilyn y Gynhadledd Fysiau a gynhaliais ym mis Ionawr, rydym yn creu nifer o weithgorau i ystyried y ffyrdd gorau o:

    - wella profiad teithwyr ar safleoedd bws trwy ddarparu cyfleusterau gwell a rhoi gwybodaeth gyson i deithwyr;

- datblygu trefniadau ariannu sy'n cynnig mwy o sefydlogrwydd i'r diwydiant bysiau yng Nghymru; a

- darparu system drafnidiaeth integredig sy'n cynnig mwy o hygyrchedd a threfniadau tocynnu sy'n ffit i'r 21ain ganrif.

19. Rwyf hefyd yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad diweddar ar wasanaethau bysiau lleol yng Nghymru. Bydd hynny'n rhan o ddeialog genedlaethol a chais am dystiolaeth yn dilyn llwyddiant y Gynhadledd Fysiau am gyfeiriad tymor hir i wasanaethau bysiau lleol ac o gynigion a allai yn fy marn i wella gwasanaethau yng Nghymru yn sylweddol.

Russell George AM
Chair, Economy, Infrastructure & Skills Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

Monday 3rd July 2017

Dear Russell

I am sorry that timing meant that FSB Wales was unable to come to meet with the Committee recently and give evidence to support the Committee's inquiry into City Deals and the Regional Economies of Wales. However, I was pleased that the Committee had the opportunity to meet with my colleague in Glasgow and I hope that FSB's insight from the Scottish experience was of value to the Committee.

The purpose of this note is to support our previously-submitted evidence and to give additional perspective on our view and on some of the conversations surrounding the regional economic development agenda.

Within the timescale of the Committee's inquiry, the conversations around city deals have gathered pace as have further conversations about the regional collaboration of local government in Wales. FSB Wales very much welcomes these conversations and we see the development of a new perspective on the regional economies of Wales as a very positive process.

I was interested to read the transcript of the session on 25th May at which the Committee heard from Cllr Andrew Morgan and Ms. Sheila Davies regarding the Cardiff Capital Deal and business engagement with it.

It was concerning to hear Ms. Davies' perspective that FSB Wales (and South Wales Chamber of Commerce) previously didn't '*fully understand how much money there was in the city deal, what the governance processes were and what their role was. They were working on lots of assumptions and perceptions, what they've read and what other people have told them*'.[i]

I would certainly contest the suggestion that FSB Wales has been under any misapprehension as to the amount of money tied up in the Cardiff Capital Region Deal or that we have been working on presumptions or perceptions. Since the start of the process, FSB Wales has been a vocal supporter of the deal and the opportunities around it and on two occasions, we along with other members of the business community have issued joint statements pointing to the importance of the deal and the importance of the engagement of the business community with it.

Ms. Davies is right however regarding our concerns about the complicated nature of the governance structure of the deal and the need to give clarity as to how the views of businesses can be represented within that.

Arbenigwyr mewn Busnes
Experts in Business

We are supportive of the construction of the new Business Council within the region and we are pleased to be working with other partners within the business community and in local government to ensure that we have an effective forum in which issues of relevance to businesses can be discussed. Whereas I would caution against the encouragement of a 'single voice' of business within this as this is unrealistic and impractical, it will, I hope prove a valuable forum for engagement.

Regarding the wider issue of the development of deals throughout Wales, and as indicated in our initial evidence note, we remain very concerned about the relatively under-developed nature of conversations regarding the development of the Mid Wales region and the economy within it.

As you will be very aware, Mid Wales faces very distinctive challenges caused by geography, distance from significant markets and centres of population, an ageing population and a restricted skills market. These issues impact on and are affected by relatively less well-developed networks which are of importance to businesses such as FE and HE skills infrastructure.

However, Mid Wales also represents a significant economic asset to Wales boosted by a thriving tourism offering and landscape which is attractive to hundreds of thousands of visitors each year.

However, given the challenges facing the Mid Wales economy (and rural Wales more broadly), we feel that there is the need for a more structured approach to the development of the region supported by an ambitious, collective vision informed and owned by a range of different organisations and stakeholders.

FSB Wales feels therefore that there is a strong case for a discussion and development of the proposal for an ambitious and informed growth deal for Mid Wales which looks to recognise and harness the best of existing development. However, perhaps more importantly, it should clearly relate a vision for the development of the economy which can be subscribed to by businesses but seeks to tackle some of the structural weaknesses within the region. As with the other deals, such a plan would identify and seek funding for the most strategically-impactful projects which would represent a lasting dividend for individuals and businesses throughout the area.

It is clearly our view that there should be no area of Wales which is exempted from the ambition for economic development and the construction of a deal for Mid-Wales would provide for the collective statement of that ambition and a clear plan for achieving it.

However, as important as the city and growth deals are, we feel strongly that they should not become the default for economic development conversations within the regions of Wales. FSB believes that there is much opportunity in galvanising a range of partners around localised conversations on opportunities and priorities and how we respond to the mission of

Ff/T 029 2074 7406
E wales.policy@fsb.org.uk
W fsb.wales

C/A 1 Cleeve House,
Lambourne Crescent,
Caerdydd, CF14 5GP



**Swyddfa Gofrestredig | Registered Office:**
National Federation of Self Employed and Small Businesses Limited,
Sir Frank Whittle Way, Blackpool Business Park, Blackpool, FY4 2FE

**Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif** | **Registered in England:** 1263540

Arbenigwyr mewn Busnes
Experts in Business

growing the economy of Wales and we hope that this is clearly represented in the Welsh Government's forthcoming Economic Development Strategy

We therefore very much welcome the fact that the Committee has taken the initiative to explore these questions with this inquiry and look forward to seeing the report when it is published.

In the meantime, I am more than happy to clarify any of the points in this note or the preceding evidence submitted by FSB.

With kind regards

Ben Cottam
Head of External Affairs
FSB Wales.

---

[i] Transcript of Committee evidence session on 25/5/17

**Ff/T** 029 2074 7406
**E** wales.policy@fsb.org.uk
**W** fsb.wales

**C/A** 1 Cleeve House,
Lambourne Crescent,
Caerdydd, CF14 5GP



**Swyddfa Gofrestredig | Registered Office:**
National Federation of Self Employed and Small Businesses Limited,
Sir Frank Whittle Way, Blackpool Business Park, Blackpool, FY4 2FE

**Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif** | **Registered in England:** 1263540